## Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd ym Mro'r Ysgol am 7:00 yh 27 Tachwedd 2023

### 1. Croesawu

Yn absenoldeb y clerc Mrs Rhian Richards cytunodd y cadeirydd Miss Jane Ann Roberts i gymryd y cofnodion. Cadeirwyd y cyfarfod gan Dr Edward Jones.

### 2. Presennol / Ymddiheuriadau

Presennol: Edward Jones (EJ, cadeirio), Jane Ann Roberts (JAR, cofnodion), Bethan Hughes (BH), Linda Jones (LJ), Osian Jones (OJ), Victor Owen (VO), Ann Postle (AP), Cynghorwyr Gwilym Jones (GJ) a Ken Taylor (KT).

Ymddiheuriadau: Joanne Ferry, Richard Jones a Rhian Richards (clerc).

### 3. Datgan Diddordeb

Eitem 6 – KT a GJ

### 4. Darllen a chadarnhau cofnodion 23 Hydref 2023

Croesawyd Helen Williams o Gwmni Clwyd Alun i'r cyfarfod. Rhoddodd ychydig o gefndir y stad newydd inni. Tai rhentu yw'r cwbl. Byddant yn cael eu rhentu i bobl efo cysylltiad â'r pentref. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu pwy fydd y tenantiaid.

Mae yna 16 tŷ 2 lofft, 12 tŷ 3 llofft ac 1 bynglo. Byddant yn cael eu rhentu fel a ganlyn:- Tŷ 2 lofft yn £127.57 yr wythnos, tŷ 3 llofft yn £154.94 a'r bynglo yn £154.94 hefyd.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn nifer o gwestiynau i Helen Williams ynglŷn â'r datblygiad. Maent yn gobeithio y byddant yn barod erbyn gwanwyn 2025.

Holwyd sut oedd y pres sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y maes chwarae yn cael ei dderbyn. Mynegwyd bod posibilrwydd mai'r Cyngor Sir fydd yn derbyn yr arian gyntaf a bod angen i'r Cyngor Cymuned sicrhau wedyn ei fod yn cael ei drosglwyddo iddynt.

### 5. Materion yn codi o'r cofnodion

5.1 Mynegwyd bod bws gan Medrwn Môn wedi dod i Fodedern i ymgynghori efo'r trigolion ynglŷn â'r sefyllfa bysiau drwy'r pentref. Cafwyd ymateb da iawn ym Modedern gan ein bod yn ail o ran presenoldeb ardaloedd. Deallwyd bod gwirfoddolwyr yn yr Iorwerth ym Mryngwran yn mynd a pobl o gwmpas. Awgrymwyd ein bod yn cadw llygaid ar beth mae Menter Môn a Medrwn Môn yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

5.2 Llwybrau cyhoeddus – yn dilyn yr ebost gan Arwel Evans penderfynwyd derbyn eu bod am roi sylw i lwybr Maes y Wrach i gyfeiriad Ysbylltir. Gofynnir os gallent roi sylw i lwybr Penrhos/Penrallt. Nid ydym yn gwybod am ddiffygion yn y llwybru eraill.

**Gweithredu 1 - Anfon at Arwel Evans ynglŷn â'r Llwybrau Cyhoeddus.**

5.3 Ffens y cae chwarae – penderfynwyd derbyn pris North Wales Fencing am wneud y gwaith sef £1,584 + TAW am 4 panel fydd oddeutu 10m o hyd. Cynigwyd gan LJ ac eilwyd gan AP.

**Gweithredu 2 - Anfon at North Wales Fencing i ddweud wrthynt am wneud y gwaith cyn gynted a phosib.**

5.4 Mynegwyd bod y golau wrth Dalar yn mynd i gael eu trwsio o fewn y tair wythnos nesaf.

5.5 Torri glaswellt – deallir mai y tŷ pen ym Mhlas Main sydd biau y llecyn dros y ffordd i Siop Sabi ac mai nhw sy'n gyfrifol am ei dorri.

Maent wedi bod yn torri y gwrychyn wrth y garej fel bod yr arwydd 20 mya i'w weld.

Adran Datblygu Economaidd sydd yn gyfrifol am y llecyn wrth yr Unedau.

**Gweithredu 3 - Anfon at Christian Branch i ofyn i'r adran dorri y glaswellt wrth llecyn yr Unedau.**

5.6 Sicrhau ein bod yn cadw llygaid ar ymateb y Cyngor Sir efo'r Hen Siop Bapur a Capel Ainon rhag iddo fynd yn angof.

5.7 Gan nad ydym wedi derbyn ymateb gan Dafydd Williams ynglŷn â'i sedd ar y Cyngor Cymuned penderfynwyd anfon llythyr ato yn ei hysbysu ein bod yn anfon at y Cyngor Sir i fynegi bod gennym sedd wag ar y Cyngor. Cysylltir â'r Adran Etholaeth am arweiniad.

**Gweithredu 4 - Anfon llythyr at Dafydd Williams.**

**Gweithredu 5 – Anfon at yr Adran Etholaeth i ddweud bod gennym sedd wag ar y Cyngor Cymuned.**

## 6. Deddf Cynllunio a Gwlad

Daeth 2 gais gerbron:-

6.1 Llys Helyg, Bryngwran – Cais llawn ar gyfer creu menage i ddefnydd preifat yn unig.
6.2 Ty Ysgol, Ysgol Uwchradd Bodedern – Cais llawn i newid defnydd bynglo y gofalwr presennol at ddibenion addysgol.

Nid oedd gwrthwynebiad i'r 2 gais.

**Gweithredu 6 – Anfon at yr Adran Gynllunio i fynegi nad oedd gwrthwynebiad gennym.**

## 7. Gohebiaeth

Dim

## 8. Taliadau

8.1 Penderfynwyd talu £20 am y dorch o bapi i 'Poppy Appeal'.

8.2 Penderfynwyd talu £700 i Leigh Thomas am dorri y fynwent a'r cae chwarae.

**Gweithredu 7 – Anfon siec i Poppy Appeal a Leigh Thomas.**

## 9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr

9.1 Gan nad oes palmant ger mynedfa y stad newydd mae pryder ei bod yn mynd i fod yn beryglus i gerddwyr. Oes bwriad i wneud palmant yn y dyfodol ac os nad ydynt yna mae angen croesfan? Gofynnwyd beth oedd yr amodau ar gyfer y stad newydd ynglŷn â materion priffyrdd. Penderfynwyd anfon at Rhys Jones i ofyn am gopi o'r amodau.

**Gweithredu 8 - Anfon at Rhys Jones i ofyn am amodau y stad newydd.**

9.2 Penderfynwyd anfon at Lucy Kelly, Adran Dai, i ddiolch am weddnewid yr ystafell gymunedol a'i bod wedi ei haddurno yn foethus a chyffyrddus ar gyfer y defnyddwyr, a bod yr addurniadau Nadolig yn creu naws yr Ŵyl.

**Gweithredu 9 - Anfon at Lucy Kelly i ddiolch.**

9.3 Un Llais Cymru – Deallir bod hyfforddiant ar gael gan Un Llais Cymru a'i bod yn bwysig inni fel aelodau wybod am y Cod Ymddygiad. Ceir rhestr o'r hyfforddiant ar eu gwefan. Cysylltir â Paul Eagan i holi at bwy mae o'n anfon y wybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant.

**Gweithredu 10 - Cysylltu â Paul Eagan o Un Llais Cymru ynglŷn â'r hyfforddiant.**

9.4 Mae sbwriel yn parhau yn y llecyn tu ôl i dŷ Tŷ Croes yn y pentref. Awgrymwyd ein bod yn cysylltu â Ned Michael i gwyno.

**Gweithredu 11 - Cysylltu â Ned Michael ynglŷn â'r sbwriel.**

9.5 Mae cyflwr gwyneb Lon Presaeddfed ar hyn o bryd yn eithaf drwg ac mae dŵr yn rhedeg dros y lon wrth y bocs postio ar y gongl cyn Sein. Cysylltir â Gary Leadbitter i gwyno am y sefyllfa.

**Gweithredu 12 - Cysylltu â Gary Leadbitter ynglŷn â Lon Presaeddfed.**

9.6 Hysbyswyd yr aelodau bod DU Construction yn mynd i gychwyn y gwaith o glirio y fynwent dydd Sadwrn, 2 Rhagfyr. Gan fod y cadeirydd yn methu a bod yn bresennol i fynd yno cytunodd Osian Jones i fynd yn ei lle.

9.7 Offer y parc – Derbyniwyd dyfynbris o offer megis sleid, si-so a springer gan Gwmni G L Jones, Bethesda. Cyfanswm y tri oedd £18,900. Penderfynwyd gadael y prisiau am rwan a

disgwyl nes y cawn wybod faint o arian y byddwn yn ei dderbyn gan Clwyd Alun tuag at y parc. Yn y cyfamser gellir cysylltu â cwmnïau eraill. Deallir bod yna un yn Llangollen.

**Gweithredu 13 – Chwilio am brisiau offer parc gan gwmnïau eraill.**

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

22 Ionawr 2024

Dymunodd y Cadeirydd EJ a'r Cynghorwyr GJ a KT Nadolig Llawen i bawb.